# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Bwnis Borthyn a Chlwb BB**

**Ysgol Borthyn**
**Ffordd Dinbych**
**Rhuthun**
**LL15 1NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/12/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019._**
_Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk_
_Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol._

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Bwnis Borthyn a Chlwb BB yn cynnig gofal dydd llawn ac yn cael ei redeg o Ysgol Borthyn, Rhuthun.
Teleri Llwyd-Jones yw'r unigolyn cyfrifol a Marian Lloyd-Chambers yw'r person sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 11:30 a 17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 19 o blant rhwng 0 a 12 oed. Caiff addysg gynnar ei chynnig i blant a ariennir.

Saesneg yw prif iaith y gofal a chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac mae'r plant yn y cylch chwarae yn frwdfrydig dros eu chwarae a'u dysgu. Mae'r staff yn cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel, ac mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Fodd bynnag, gellid gwella'r profiadau chwarae yn y clwb ar ôl ysgol. Mae'r arweinwyr yn awyddus i ddysgu ac yn croesawu beirniadaeth adeiladol, ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae angen gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli er mwyn bodloni ein rheoliadau.

### 2. Gwelliannau

Ers cofrestru, mae'r arweinwyr yn olrhain datblygiad y plant yn electronig ac mae'r gwaith o gynllunio gweithgareddau wedi gwella ar gyfer plant y cylch chwarae. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi prynu teganau ac adnoddau newydd.

Ar ôl yr arolygiad, darparodd y person â chyfrifoldeb y canlynol:

- Datganiad o ddiben diwygiedig, ond mae angen gwneud newid bach er mwyn bodloni'r rheoliadau'n llawn;
- gwybodaeth am alergeddau tri phlentyn;

- polisi ymddygiad diwygiedig;
- trefn feunyddiol y Clwb BB (i'w rhoi ar waith o fis Ionawr 2020);
- ffurflen wag ar gyfer casglu'r plant.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi maes lle nad yw'r unigolyn cyfrifol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, ac mae hyn yn arwain at risg bosibl a/neu ganlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r canlynol:

- Cadw cofnodion (rheoliad 30): Roedd gwybodaeth ofynnol ar goll yng nghofnodion y plant.

Nodir manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr adroddiad diffyg cydymffurfio sydd ynghlwm.

Rydym hefyd wedi cynghori'r person â chyfrifoldeb bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â goruchwylio/arfarnu'r staff (rheoliad 29), ffeiliau'r staff (rheoliad 28), y datganiad o ddiben (rheoliad 15) ac ymarferion tân (rheoliad 38) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiadau wedi cael eu cyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd y materion hyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain, ac ailedrychir ar y sefyllfa yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â chyfleoedd chwarae yn y clwb ar ôl ysgol, polisïau/asesiadau risg, cofrestrau a pharatoi byrbrydau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r oedolion a'u cyfoedion. Maent yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae, dysgu a hamdden. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth, sy'n helpu i'w paratoi ar gyfer yr ysgol.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda, ac roedd eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried gan amlaf. Er enghraifft, roedd y plant yn dewis pa eitemau roeddent am chwarae â nhw, a gyda phwy roeddent am chwarae. Roeddent yn dewis a oeddent am gael cymorth i dorri eu bwyd cinio a beth roeddent am ei fwyta amser byrbryd. Roedd digonedd o gyfleoedd chwarae rhydd ar gael i blant y cylch chwarae, ynghyd ag adnoddau a oedd yn ennyn eu diddordebau. Fodd bynnag, cawsant eu hannog i ddewis y teganau a oedd wedi cael eu gosod ar eu cyfer yn unig, a oedd wedi'u hatal rhag dilyn eu diddordebau eu hunain ar adegau.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn fodlon eu byd ac yn ymgyfarwyddo â'r arferion. Er enghraifft, roedd y plant yn gosod eu ffotograff ar yr hysbysfwrdd yn hapus wrth gofrestru, cyn bwrw ati ar unwaith i wneud gweithgaredd. Roedd y plant yn adnabod y staff yn dda ac roedd ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â nhw. Roeddent yn fodlon cymryd rhan mewn tasgau wedi'u harwain gan oedolion, megis cyfrif yr anrhegion Nadolig, ac roedd y plant yn y clwb ar ôl ysgol yn gyfforddus yn sgwrsio â'r staff am eu cinio Nadolig. Dywedodd y plant y cawsom sgwrs â nhw wrthym eu bod yn hoffi dod i'r gwasanaeth, a chadarnhaodd y rhieni hynny.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau i dacluso'r adnoddau ac roeddent yn dechrau rhannu cyfarpar yn briodol. Er enghraifft, roedd y plant bach yn rhannu eu toes yn annibynnol ac yn rhoi ychydig ohono i'w ffrindiau. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gofalu am deganau ac adnoddau'n ofalus, ac roedd nifer ohonynt yn gwrtais a charedig tuag at ei gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn atgoffa eu ffrindiau i roi'r adnoddau i gadw, a chlywsom sawl plentyn yn defnyddio 'please' and 'thank you' heb gael eu hatgoffa.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu'n dda yn ystod eu chwarae. Un o'r hoff weithgareddau chwarae oedd defnyddio papur Nadoligaidd a thâp-selo i lapio eitemau ar gyfer y Nadolig, ac roedd y plant yn llawn cyffro wrth wneud hynny. Roeddent hefyd yn canu caneuon fel Jingle Bells wrh gwblhau tasgau eraill. Roedd plant y cylch chwarae'n frwdfrydig iawn yn eu chwarae am eu bod yn cael amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol. Roedd plant y clwb y tu allan i'r ysgol yn lliwio lluniau'n hapus, ond pan ofynnwyd iddynt am eu hamser yn y gwasanaeth, gwnaethant sôn y byddent yn hoffi cael mwy o weithgareddau i'w gwneud.

Roedd gweithgareddau ar gael i'r plant a oedd yn eu galluogi i feithrin sgiliau priodol, gan gynnwys annibyniaeth.  Roeddent yn gwneud pethau drostynt eu hunain, megis rhoi

adnoddau i gadw, gwisgo eu cotiau, ac roedd plant y cylch chwarae yn gweini eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Maent yn garedig yn eu ffordd o weithio ac yn rheoli'r rhyngweithio'n dda. Mae'r staff yn llwyddo i ddiwallu anghenion unigol y rhan fwyaf o'r plant ac yn trefnu amrywiaeth dda o brofiadau, sy'n hybu ac yn datblygu sgiliau'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Er enghraifft, roedd cofnodion presenoldeb y plant yn cael eu cwblhau'n gywir, roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol, megis hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, ac roedd yr arweinwyr yn gweithio tuag at y wobr cyn-ysgol iach a chynaliadwy.  Roedd hyn yn dangos bod y staff yn deall pwysigrwydd iechyd da yn y blynyddoedd cynnar. Roedd y staff hefyd yn hyrwyddo iechyd y geg drwy ddarparu cyfleoedd i'r plant frwsio eu dannedd yn y gwasanaeth bob dydd. Pan holwyd y staff, roeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt bryder am blentyn ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd y cofnodion damweiniau/digwyddiadau yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn cael eu llofnodi gan y rhieni. Roedd arferion glanhau a hylendid da yn cael eu dilyn ar y cyfan. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn fwy effeithiol pe bai'r rhai â thystysgrifau hylendid/diogelwch bwyd yn unig oedd yn paratoi'r byrbrydau. Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn briodol drwy gynnig bwyd iachus a darparu cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored bob dydd ar gyfer plant y cylch chwarae.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd rhyngweithio'r staff yn gadarnhaol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Roedd y staff yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith i reoli'r plant. Er enghraifft, roedd y staff yn canmol y plant, yn eu hailgyfeirio ac yn siarad yn gadarn â nhw yn ôl yr angen. Roedd angen diwygio'r polisi ymddygiad er mwyn cyfateb i anghenion y plant iau. Cafodd y diwygiadau hyn eu gwneud a'u hanfon atom cyn i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Roedd gan y staff wybodaeth dda am ddatblygiad y plant ac roeddent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Roedd y staff yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant. Er enghraifft, aeth y staff ati ar unwaith i gefnogi'r plant hynny yr oedd angen rhagor o gymorth arnynt i ddilyn cyfarwyddiadau neu i gyflawni tasgau. Roedd y person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn ymarfer beunyddiol. Er enghraifft, drwy ganu caneuon Cymraeg, cyfrif a defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn hyderus yn ystod gweithgareddau a thasgau. Roedd y staff yn helpu'r plant yn dda i ddatblygu sgiliau drwy amrywiaeth eang o brofiadau sy'n gysylltiedig â chwricwlwm y cyfnod sylfaen. Roedd y rhain yn cynnwys gwrando ar straeon Nadoligaidd a chymryd rhan ynddynt, cyfrif yr anrhegion Nadolig a datblygu eu sgiliau creadigol drwy addurno pigyrnau pinwydd a chreu cardiau Nadolig. Roedd nodiadau arsylwi yn cael eu cadw

a'u defnyddio i gynllunio ar gyfer camau dysgu nesaf y plant, ac fe'u rhannwyd yn rheolaidd â'r rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae gan yr arweinwyr weithdrefnau priodol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar gydag adnoddau glân, sy'n briodol i ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, gellid gwella amgylchedd y clwb y tu allan i'r ysgol.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel i'r plant. Er enghraifft, roedd yr ardal awyr agored yn gaeedig, roedd y drysau i'r gwasanaeth wedi'u cloi a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Fodd bynnag, pan ofynnwyd am gofnodion yr ymarferion tân, ni ddaethpwyd o hyd iddynt. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, a hynny yn y cylch chwarae ac yn y clwb y tu allan i'r ysgol, ond nid oedd unrhyw gofnodion ysgrifenedig i gadarnhau hyn. Nid oedd hyn yn bodloni ein rheoliadau. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau a oedd yn dangos sut roedd yr arweinwyr a'r staff wedi lleihau neu ddileu risgiau posibl ar y safle ac yn ystod gweithgareddau a gynhaliwyd. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n ddigon rheolaidd ac roedd angen ychwanegu dyddiadau adolygu at y ddogfen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod amgylchedd y cylch chwarae yn groesawgar ac yn darparu profiadau chwarae a dysgu cyfoethog i'r plant. Er enghraifft, roedd yr adnoddau a'r ardaloedd chwarae yn adlewyrchu egwyddorion y cyfnod sylfaen ar draws y ddwy ystafell ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac yn yr ardal awyr agored. Roedd y rhain yn cynnwys adnoddau o ansawdd da, megis ardal chwarae rôl Nadoligaidd ysgogol, cylch archwilio ac adnoddau gwneud marciau. Roedd yr amgylchedd yn olau, ac yn cynnwys ardaloedd cyfforddus a thawel lle gallai'r plant ymlacio. Roedd gwaith y plant yn cael ei arddangos, a hynny mewn ffordd ddeniadol, gan roi ymdeimlad o berthyn ac o werth iddynt. Roedd toiledau a chyfleusterau golchi dwylo lefel isel yn galluogi'r plant i ofalu am eu hanghenion personol a bod yn fwyfwy annibynnol wrth wneud hynny. Fodd bynnag, gallai'r profiadau chwarae a'r adnoddau fod wedi bod yn fwy amrywiol yn y clwb y tu allan i'r ysgol, ac ni chynigiodd yr arweinwyr ddigon o gyfleoedd chwarae awyr agored i'r plant hŷn. Yn dilyn yr arolygiad, anfonwyd copi o drefn newydd y clwb y tu allan i'r ysgol atom (i'w roi ar waith o fis Ionawr 2020) a oedd yn cynnwys amrywiaeth ehangach o gyfleoedd chwarae i'r plant hŷn.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da, a oedd yn cydweddu'n dda ag oedrannau a chamau datblygu'r plant iau. Er enghraifft, roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau a gweadau wrth ddefnyddio'r toes. Roeddent yn arbrofi gyda glanhawyr pibellau a gliter i wneud eu creadigaethau eu hunain. Roedd yr arweinwyr yn hyrwyddo amrywiaeth yn briodol drwy ddathlu gwyliau pwysig, gan gynnwys blasu bwyd, ac roeddent yn darllen straeon o ddiwylliannau eraill. Archwiliwyd gwrthrychau naturiol drwy weithgareddau synhwyraidd a straeon, megis *'We're going on a leaf hunt',* ac roedd teganau ac adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli — Digonol

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn gwrando ar adborth adeiladol ac yn awyddus i wneud gwelliannau, ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r staff yn cydweithio'n dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r holl reoliadau.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn newydd i'r rôl, ac yn awyddus i ddysgu a gwneud gwelliannau. Roedd y staff yn deall ac yn dilyn y rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion cofrestru'r plant yn bodloni'r rheoliadau gan fod gwybodaeth ofynnol ar goll o'u cofnodion unigol. Gwnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn mynd i'r afael â hyn ar frys. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac y gallent gyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau. Roedd y datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth am yr hyn yr oedd y gwasanaeth yn ei gynnig. Fodd bynnag, roedd angen gwneud un newid bach er mwyn bodloni'r rheoliadau'n llawn. Gwelsom hefyd fod angen ychwanegu dyddiadau adolygu at bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gwnaeth yr arweinwyr ystyried hyn a dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gennym yn ystod yr arolygiad ar unwaith. Roedd holiaduron wedi cael eu dosbarthu'n gynharach yn y flwyddyn ac roedd y rhain yn canu clodydd y gwasanaeth a'r gofal a ddarperir. Roedd yr arweinwyr yn awyddus i wella'r gwasanaeth ac roeddent wedi dechrau olrhain cynnydd y plant yn electronig yn ddiweddar, ac roeddent yn gobeithio y byddai hynny'n fwy effeithiol.

Ar y cyfan, roedd yr arweinwyr yn rheoli'r staff yn briodol. Roedd pob aelod o'r staff yn cael sesiwn sefydlu briodol, a oedd yn sicrhau eu bod yn deall yn glir sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Roedd y prosesau recriwtio'n foddhaol ac roedd gan bob aelod o'r staff Dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac roeddent yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i wella eu gwybodaeth a'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid oedd sesiynau goruchwylio nac arfarniadau'n cael eu cynnal yn ddigon aml. Ar y diwrnod, roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n dda a bod cymarebau'r staff yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, nid oedd y staff a oedd yn gweithio y diwrnod hwnnw wedi llofnodi'r gofrestr. Roedd rhywfaint o ddogfennaeth ar goll mewn ffeiliau rhai o'r staff, megis hanes cyflogaeth, contract ac ail eirda, a oedd yn ofynnol yn ôl y rheoliadau.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am amser eu plant yn y gwasanaeth drwy sgyrsiau dyddiol wrth eu gollwng a'u casglu. Roedd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gerrig milltir datblygiadol a chyflawniadau eu plant. Roedd yr arweinwyr yn hawdd mynd atynt ac roedd yr holl rieni y cawsom sgwrs â nhw yn canmol y staff a'r gofal roeddent yn ei ddarparu. Roedd gan yr

arweinwyr gysylltiadau agos â'r ysgol ac roedd y plant yn cael budd o adnoddau'r ysgol. Roedd bod yn gyfarwydd â'r oedolion a'r adeilad hefyd yn sicrhau bod y plant yn pontio'n ddidrafferth i addysg amser llawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Er mwyn gwella arferion, gallai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- ychwanegu dyddiadau adolygu at bolisïau ac asesiadau risg;
- gofyn i'r staff lofnodi'r cofrestrau i ddangos pa aelodau o'r staff sy'n gweithio y diwrnod hwnnw ac i ddangos tystiolaeth bod cymarebau priodol yn cael eu dilyn;
- darparu amrywiaeth ehangach o adnoddau/gweithgareddau chwarae a hamdden ar gyfer y plant sydd yn y clwb y tu allan i'r ysgol;
- sicrhau mai dim ond y rhai sydd wedi cael hyfforddiant diogelwch bwyd sy'n paratoi byrbrydau'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth rhwng 11:30 a 17:30, ddydd Mawrth 17 Rhagfyr 2019.

Gwnaethom y canlynol:

- Arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI2 er mwyn casglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- archwilio'r amgylchedd, y teganau a'r cyfarpar;
- siarad â'r plant, y staff a thri rhiant/gofalwr;
- siarad â'r person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;
- edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau, gweithdrefnau, ffeiliau tri aelod o'r staff a chofnodion pedwar plentyn;
- rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb ar ddiwrnod yr arolygiad, ac adborth ychwanegol i'r person â chyfrifoldeb dros y ffôn ddydd Iau 19 Rhagfyr 2019.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Teleri Llwyd-Jones |
| Person â chyfrifoldeb | Marian Lloyd-Chambers |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-12 |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig 11:30-17:30 |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf yn dilyn ailgofrestru |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 17 Rhagfyr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/02/2020

## Arolygiaeth Gofal Cymru

### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

### Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

**Gofal Dydd Plant**

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni a bennir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â'i pholisi gorfodi.**

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGGCC
www.arolygiaethgofal.cymru

**Bwnis Borthyn a Chlwb BB**

Ysgol Borthyn
Ffordd Dinbych
Rhuthun
LL15 1NT

| Arwain a Rheoli | Ein Cyf: NONCO-00009034-TSNG |
|---|---|
| **Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn** | |
| **Amserlen gwblhau** | **21/02/20** |
| | |
| **Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu** | **Rhif y rheoliad** |
| Rheoliad 30 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: Ni wnaeth yr unigolyn cyfrifol sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu tystiolaeth i AGC i ddangos bod cofnodion cofrestru'r plant yn gyflawn ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys y canlynol: dyddiad geni, rhyw, cefndir crefyddol/diwylliannol, manylion cyswllt meddyg teulu, gwybodaeth am iechyd, trefniadau casglu ac anghenion dietegol. | |
| **Tystiolaeth** | |
| - Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â rheoliad 30.<br>- Y rheswm dros hyn yw, ar ddydd Mawrth 17 Rhagfyr 2019, gwnaethom edrych ar gofnodion cofrestru pedwar plentyn a chanfod bod y wybodaeth ofynnol ar goll.<br>- O'r pedwar cofnod a welsom, nid oedd dau ohonynt yn cynnwys rhyw, dyddiad geni na gwybodaeth grefyddol/ddiwylliannol, nid oedd dau ohonynt yn cynnwys trefniadau casglu nac anghenion dietegol, ac nid oedd y pedwar yn cynnwys manylion cyswllt meddygon teulu na gwybodaeth am iechyd.<br>- Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, os nad yw'r wybodaeth yn ael ei chofnodi, yw nad yw anghenion unigol y plant yn hysbys a gallai eu hiechyd a'u diogelwch gael eu peryglu, yn enwedig mewn argyfwng. | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi